

Diwedd Blwyddyn

Darlleniad 1: Llyfr y Pregethwr 3: 1-8

Darlleniad 2: Actau 1: 1-11

O! dragwyddol Dduw ein Tad, gogoneddwn dy enw mawr. Diolch i ti am dy holl ddaioni tuag atom, ac yn enwedig ar derfyn blwyddyn fel hyn. Diolch i ti am dy ras; diolch am athrawon; diolch am ffyddloniaid a'th genhadon yn dy eglwys; diolch am bob dyfalbarhad ac amynedd i ddatblygu'n aelodau da o'th gymdeithas a chael cyfle drwy Iesu Grist i fod yn ddeiliaid teilwng o'th deyrnas di. Dyro i ni'r awydd a'r arweiniad drwy gyfrwng ein haddoliad i gydnabod mai tydi sydd wedi ein cadw bob amser mewn iechyd meddwl a chorff. Duw pob gras a gwirionedd wyt ti; hebot ti ni wnaethwn ddim.

Mewn gwir edifeirwch erfyniwn am dy faddeuant am ein holl anffyddlondeb a'n diffyg ymroddiad yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Tosturia wrth bob un ohonom a 'dyro i ni nerth yn ôl y dydd, a'th olau ar hyd llwybrau ffydd'. Ti yw ein creawdwr a'n cynhaliwr. Dysg ni i ymddiried yn llwyr ynot a gwna ni'n wir ddisgyblion i'th annwyl Fab dy hun, Iesu Grist, drwy nerth yr Ysbryd Glân. Arwain ni ar y ffordd i werthfawrogi a charu cymdeithas ein gilydd; cynorthwya ni i ddiogelu cyfiawnder, cyfle, a chyfraniad dy efengyl sanctaidd.

Moliannwn di, O! Dduw, am yr etifeddiaeth a ddaeth i ni o'r gorffennol, ac am holl lafur y rhai a fu'n llafurio'n ddiwyd yn dy winllan. Amlheaist dy gariad drwy eu llafur, eu ffydd a'u deall; gwna ninnau'n gyffelyb iddynt i ddiogelu'r ffydd Gristnogol. Bendithia ni heddiw, y rhai sy'n ceisio'r ffordd newydd, i agor ac i wella ansawdd ein bywyd. Goleua ein llwybrau; prydfertha ein bywyd; gwna ni'n fwy tebyg i Iesu Grist, yn byw gan lwyr gysegru'n bywyd i'th wasanaethu di, ein Duw. Gwerthfawrogwn yn fawr bob peth a phob profiad a gawsom yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Na foed arnom gywilydd o efengyl Iesu Grist, canys dy ewyllys di yw ein hiachawdwriaeth. Gad i ni gloi'r flwyddyn mewn gwir ddiolchgarwch. Arwain ni'n ddiogel i gamu i'r flwyddyn newydd gan ymdawelu a myfyrio ar dy ewyllys ac i gyfrif dy wasanaeth di'n fraint ac yn fendith.

Cynorthwya ni ar ddiwedd blwyddyn i wneud addewidion personol ac i ymdrechu i fod yn debycach i'n Harglwydd. Yng ngeiriau'r emynydd:

‘O! na bawn yn fwy tebyg
I Iesu Grist yn byw,
Yn llwyr gysegru 'mywyd
I wasanaethu Duw,
Nid er ei fwyn ei hunan
Y daeth i lawr o'r ne,
Ond rhoi ei hun yn aberth
Dros eraill wnaeth Efe.’

Gofynnwn am i ti roddi dy gwmmi i'r rhai sy'n glaf. Dangos iddynt na chânt byth eu siomi ynot ti, os ceisiant dy gymorth. Bydd yn nerth iddynt, Arglwydd, ac yn gwmmi yn eu dioddefaint, a gad iddynt deimlo dy fod ti'n agos iawn atynt. Cynorthwya ni, pa brofiadau bynnag a ddaw i'n rhan, i aros yn ffyddlon i ti. Cynorthwya ni i oddef unrhyw siom yn wrol, a dangos inni sut i feithrin hapusrwydd a gwroldeb. Cymer ni i'th ofal, Arglwydd, a gwna waith mawr trwom ac ynom.

Cadw ni'n agos at Iesu a llanw ein calonnau â'i Ysbryd ef. Diolchwn i ti am roddi dy Fab i'n byd, am ei aberth fawr ef dros ein pechodau ar Galfaria ac am ei atgyfodiad rhyfeddol o'r bedd yn fyw:

‘Ni allodd angau du
Ddal Iesu'n gaeth
Ddim hwy na'r trydydd dydd -
Yn rhydd y daeth ... ’

I ti y byddo'r clod, y parch a'r bri. Maddau ein holl bechodau - disgyn ganwaith i'r un bai yr ydym. Ar ddiwedd blwyddyn, cryfha ein ffydd ac arwain ni yn dy law i'r flwyddyn newydd yn llawn gobaith. Gofynnwn y cwbl yn enw ac yn haeddiant Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Carys Ann